wythnos siarad arian®

6–10 Tachwedd 2023

Helpwr Arian

Darparwyd gan

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Llywodraeth EM

Cynnwys

Beth yw Wythnos Siarad Arian? 3

Pam Siarad Arian? 4

Gwnewch Un Peth 5

Dechreuwch y sgwrs 6

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau 8

Ynglŷn â HelpwrArian 9

Siarad Arian? 10

- Yn y gweithle 10
- Mewn gwasanaethau ariannol 12
- Mewn llywodraeth leol a thai 14
- Yn y trydydd sector a pholisi 16
- Siarad Arian mewn addysg, a gwasanaethau plant, ieuenctid a theuluoedd 18
- Mewn iechyd a gofal cymdeithasol 20

Cadwch y sgwrs i fynd 22

Siarad Arian yng Nghynhadledd y Tywyswyr Ariannol 2023 23

Beth yw Wythnos Siarad Arian?

6 – 10 Tachwedd 2023

Bob mis Tachwedd rydym yn annog pawb i ddod at ei gilydd ar gyfer Wythnos Siarad Arian, i ddechrau sgyrsiau arian mewn gweithleoedd, grwpiau teulu a chyfeillgarwch, ysgolion, a chymunedau ehangach.

Mae'r wythnos yn gyfle i bawb gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau sy'n helpu pobl i gael sgyrsiau mwy agored am eu harian – o arian poced i bensiynau – a pharhau â'r sgyrsiau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Ciplun o Wythnos Siarad Arian 2022

Wedi'i gwmpasu gan dros 500 o allfeydd yn y wasg, gan gynnwys rhanbarthol, cenedlaethol a darlledu

Dros 12 miliwn o bobl wedi'u cyrraedd ar-lein

Nifer o ASau wedi cefnogi Wythnos Siarad Arian yn gyhoeddus

Cynhaliwyd cannoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau Wythnos Siarad Arian ar draws pedair gwlad y DU

Mae ymchwil yn dangos bod pobl sy'n siarad am arian yn:

- gwneud penderfyniadau ariannol gwell a llai peryglus
- cael perthnasoedd personol cryfach
- helpu eu plant i ffurfio arferion arian da am oes
- teimlo llai o straen neu'n llai gorbryderus ac yn dangos mwy o reolaeth

Pam Siarad Arian?

Er gwaethaf y sylw presennol ar gyllid cartrefi, mae siarad am arian yn dal i fod yn dabŵ. Mae pobl yn ei chael yn anodd bod yn agored am bryderon ynghylch arian a phensiynau, ac nid ydynt yn cyrchu'r cymorth arbenigol sydd ar gael i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd ymlaen.

Mae cenedl sy'n iach yn ariannol yn dda i unigolion, cymunedau, busnesau a'r economi. Mae cynnwys sgyrsiau arian yn ein bywydau bob dydd yn ein helpu i adeiladu hyder a gwytnwch ariannol i wynebu siociau incwm, digwyddiadau bywyd a beth bynnag mae'r dyfodol yn ei daflu atom.

Helpwch ni i **#SiaradArian** eleni.

Mae ystod enfawr o wybodaeth, offer, ac arweiniad am bob agwedd ar arian ar gael trwy ein gwasanaeth HelpwrArian.

HelpwrArian,

Helpwr Arian

Mae HelpwrArian yma i wneud eich dewisiadau arian a phensiwn yn gliriach. Yma i dorri trwy'r cymhlethdod, esbonio beth sydd angen i chi ei wneud a sut y gallwch ei wneud. Yma i'ch rhoi mewn rheolaeth ag arweiniad diduedd, rhad ac am ddim a gefnogir gan y llywodraeth, ac i'ch helpu i ddod o hyd i ragor o gymorth y gallwch ymddiried ynddo os bydd ei angen arnoch.

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**

Arweiniad ar bensiynau **0800 756 1012**

Gwnewch Un Peth

Yn ystod Wythnos Siarad Arian hon rydym yn lledaenu neges syml: Gwnewch Un Peth

Gofynnwch i'r bobl rydych yn eu cefnogi neu'n eu cyflogi i 'wneud un peth' i hybu eu llesiant ariannol - a hyd yn oed yn well, i rannu'r hyn maent yn ei wneud ag eraill, boed hynny trwy gyfryngau cymdeithasol, sgyrsiau gyda ffrindiau a theulu, neu mewn unrhyw ffordd arall.

Nid oes rhaid iddo fod yn fawr. Gallai fod mor syml â gwirio bod eu cyfeiriad yn gyfredol ar eu pensiynau, siarad â phlentyn am arian poced neu ddefnyddio cyfrifiannell budd-daliadau HelpwrArian i wirio nad ydynt yn colli allan ar unrhyw incwm y gallent fod yn ei hawlio.

Gwnewch iddo ddigwydd:

1. Penderfynwch ar eich 'un peth'
2. Dywedwch wrth bawb amdano
3. Anogwch eraill i wneud yr un peth!

#GwnewchUnPeth

Dechreuwch y sgwrs

Defnyddiwch y syniadau a'r adnoddau hyn i'ch helpu i ddylunio eich gweithgareddau Wythnos Siarad Arian.

Siarad Arian ar gyfryngau cymdeithasol

- Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol i ddweud wrth bobl pam eich bod yn cefnogi Wythnos Siarad Arian, ac arddangos y cymorth neu'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig yn barod.
- Defnyddiwch yr hashnodau **#SiaradArian** a **#GwnewchUnPeth** i ddweud wrthym am 'un peth' rydych yn gofyn i'ch cynulleidfaoedd ei wneud, fel y gallwn ledaenu'r gair.
- Dim llawer o amser? Lawrlwythwch a rhannwch ein **graffeg gymdeithasol, troshaenau a thrydariadau templed Wythnos Siarad Arian am ddim**.

Rhannwch yr adnoddau hyn gyda'r bobl rydych yn eu cefnogi

- Rhowch wybod i bobl ble y gallant ddod o hyd i gymorth trwy gysylltu â chanllawiau HelpwrArian diduedd am ddim a gefnogir gan y llywodraeth trwy eich sianeli mewnol neu allanol.
- Crëwch gynnwys megis blog neu bodlediad i helpu'ch cynulleidfa i reoli eu harian.
- Rhannwch ein **hymchwil a mewnwelediadau diweddaraf** ar lesiant ariannol, sy'n ymdrin â phynciau gan gynnwys addysg ariannol, iechyd meddwl, rhywedd, pensiynau, a defnydd credyd.
- Rhannwch neu printiwch ein **Poster Siarad Arian** i helpu i gyfeirio at wasanaethau HelpwrArian.
- Anogwch bobl i **drefnu apwyntiad Pension Wise am ddim** fel y gallant siarad â thywysydd pensiwn.

Trefnwch neu hyrwyddwch ddigwyddiad

- Cynhaliwch ddigwyddiad lle gall eich cynulleidfa siarad â chi am arian wyneb yn wyneb neu ar-lein, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cymorth llesiant ariannol sydd eisoes ar gael.
- Anogwch weithwyr sy'n rhoi arweiniad ariannol, i fynychu sesiynau yn y gynhadledd am ddim i'r Tywyswyr Arian, i gymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol a dysgu gan sefydliadau eraill.

Siaradwch am Arian yn eich ardal leol

- Cynhwyswch y wasg leol, fasnachol neu genedlaethol â'r gwaith rydych yn ei wneud i helpu pobl i siarad am arian gan ddefnyddio ein **templed datganiad i'r wasg**.
- Defnyddiwch ein **e-bost templed** i ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol i'w gwahodd i ymweld â'ch sefydliad yn ystod Wythnos Siarad am Arian.

Cadwch yn gyfredol

Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ar LinkedIn

@MoneyPensionsUK

Derbyniwch ein **cylchlythyr misol**

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yma i sicrhau bod pawb yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu harian drwy gydol eu hoes: o arian poced i bensiynau.

Yn 2020, fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol, fframwaith 10 mlynedd ar gyfer trawsnewid llesiant ariannol y genedl, sy'n canolbwyntio ar bum nod cenedlaethol:

- 2 filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn cael addysg ariannol ystyrlon
- 2 filiwn yn fwy o bobl o oedran gweithio sydd 'mewn trafferth' ac yn cael eu 'gwasgu' yn cynilo'n rheolaidd
- 2 filiwn yn llai o bobl yn defnyddio credyd yn aml ar gyfer bwyd a biliau
- 2 filiwn yn fwy o bobl yn cyrchu cyngor ar ddyledion
- 5 miliwn yn fwy o bobl yn deall digon i gynllunio ar gyfer bywyd diweddarach

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r llywodraeth, diwydiant a'r trydydd sector i gydlynu cynlluniau cyflawni ar gyfer pob un o wledydd y DU. Mae'r cynlluniau'n amlinellu sut y gallwn gyda'n gilydd symud y deial ar y nodau a gyflwynir yn y strategaeth

Mae MaPS yn darparu canllawiau arian a phensiynau diduedd am ddim i'r cyhoedd drwy'r gwasanaeth HelpwrArian.

Gallwch chi hefyd gymryd rhan yng nghenhadaeth MaPS.

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Ynglŷn â HelpwrArian

Helpwr Arian

Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, fe gewch arweiniad clir ar arian a phensiynau sy'n gyflym i'w ganfod, yn hawdd i'w ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy os oes angen mwy o gymorth arnoch.

Ar gael i bawb ac am ddim, mae HelpwrArian yn eich helpu i dalu'ch dyledion, i leihau gwariant ac i wneud y mwyaf o'ch incwm. I gefnogi anwyliaid, cynllunio ymlaen llaw ar gyfer pryniannau mawr a dysgu am hawliau. I gynyddu cynilion a phensiynau, a gwybod am eich opsiynau.

Chwiliwch am HelpwrArian:
moneyhelper.org.uk/cy

Siarad Arian yn y gweithle

Ar hyn o bryd, efallai bod eich gweithlu neu eu teuluoedd yn teimlo pwysau costau byw, yn poeni am ddiswyddo, adleoli, ailhyfforddi neu ymddeol yn gynnar. Mae'n foment allweddol i gyfathrebu â'ch pobl i'w helpu i adolygu eu sefyllfa ariannol.

- **Cyfeiriwch at ein harweiniad arian am ddim**, cyngor ar ddyledion, arweiniad pensiynau ac offer ar-lein trwy eich mewnrwyd neu mewn ardaloedd cymunedol, neu drwy sianeli allanol.
- Defnyddiwch Wythnos Siarad Arian i'ch helpu i gyflwyno achos dros lesiant ariannol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn eich sefydliad.
- Defnyddiwch 'Gwnewch Un Peth' fel bachyn i hyrwyddo'r cymorth llesiant ariannol a ddarperir gennych, megis rhaglenni cymorth i gyflogeion, talebau gofal plant, tocyn tymor neu fenthyciadau beicio i'r gwaith neu bartneriaeth undeb credyd.
- Lansiwch arolwg staff dienw i'ch helpu i ddeall eu pryderon ariannol a nodi pa gymorth a allai fod o gymorth.
- Hyrwyddwch y cymorth y mae eich sefydliad yn ei gynnig ar adegau allweddol mewn bywyd megis ymddeoliad.
- Trefnwch ffair llesiant ariannol i arddangos yr hyn sydd ar gael.
- Gwahoddwch ddarparwyr allanol sy'n darparu cymorth yn y gweithle megis addysg ariannol neu gyngor i amlygu eu gwasanaethau.

- Defnyddiwch Wythnos Siarad Arian i lansio gwasanaethau cymorth llesiant ariannol newydd i gyflogeion, megis **cynllun cynilo cyflogres**, partneriaeth ag undeb credyd, benthyciadau di-log a ddidynnir o'r gyflogres, neu gymorth caledi.
- Anogwch gyflogeion i gymryd **MOT canol oes** i'w helpu i asesu eu sefyllfa ariannol bresennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Siarad Arian yn y gwasanaethau ariannol

Mae gwasanaethau ariannol yn chwarae rhan allweddol wrth gynnig lle i ddefnyddwyr siarad am eu harian ac adeiladu llesiant ariannol. Fodd bynnag, mae oddeutu hanner yr oedolion yn y wlad – dros 24 miliwn o bobl – yn cyfaddef nad ydynt yn teimlo'n hyderus wrth wneud penderfyniadau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol.

Mae cwsmeriaid sy'n alluog yn ariannol yn gwneud gwell cwsmeriaid – maent yn deall eu harian, yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth ymgysylltu â gweithwyr ariannol proffesiynol ac yn mynd i lai o drafferthion ariannol o ganlyniad.

Dechreuwch y sgwrs

- Amlygwch y ffyrdd y gall cwsmeriaid gael cymorth os ydynt yn poeni am arian neu'n wynebu anawsterau ariannol.
- Defnyddiwch ein **Dywyswyr Arian** i gefnogi a datblygu sgiliau ar gyfer gweithwyr rheng flaen a helpu'ch tîm i deimlo'n fwy hyderus wrth siarad â chwsmeriaid am arian.
- Trefnwch weminar neu sesiwn holi-ac-ateb ar y cyfryngau cymdeithasol i roi arweiniad i'ch cwsmeriaid o gysur eu cartrefi.
- Cyhoeddwch ymchwil neu fewnwelediadau newydd.
- Arddangoswch waith sydd ar y gweill, megis unrhyw raglenni rydych yn eu hariannu a fydd yn helpu cwsmeriaid gyda'u rheolaeth arian.
- Hyrwyddwch unrhyw bartneriaethau lleol a all helpu eich cwsmeriaid gyda'u harian, eu cefnogi yn eu bywydau bob dydd neu roi yn ôl ` i'w cymunedau.
- Gallech ymgysylltu â'ch cwsmeriaid pryd bynnag y byddwch yn cysylltu â nhw a'u cyfeirio at ganllawiau priodol.

Pedwar awgrym i gynghorwyr ariannol

- Dewch o hyd i ffyrdd o helpu cwsmeriaid i ddeall gwerth ceisio cyngor rheoledig.
- Cynigiwch sesiynau blasu i gyrraedd cwsmeriaid posibl.
- Hyrwyddwch ac arddangoswch eich gwaith gyda chleientiaid corfforaethol.
- Ymgysylltwch ag elusennau lleol neu grwpiau cymunedol i helpu pobl i ddeall y gwasanaethau rydych yn eu darparu.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Siarad Arian mewn llywodraeth leol a thai

Efallai fod llawer o'ch preswylwyr yn cael trafferth talu biliau neu'n poeni am eu harian. Mae rhieni ar incwm isel sy'n rhentu'n breifat yn arbennig o debygol o gael mwy o drafferth gyda chostau byw ar hyn o bryd.

Mae siarad am arian gyda'ch preswylwyr yn ffordd arall o helpu pobl yn eich cymuned a gwella eu hiechyd a'u hapusrwydd, a chryfhau'r gwasanaethau rydych yn eu darparu.

Dechreuwch y sgwrs

- Defnyddiwch yr ymgyrch Gwnewch Un Peth i hyrwyddo'r gwasanaethau llesiant ariannol a ddarperir gennych.
- Helpwch eich tîm i deimlo'n fwy hyderus wrth siarad â phreswylwyr am arian: defnyddio ein rhaglen Tywyswyr Arian i gefnogi a datblygu sgiliau ar gyfer gweithwyr rheng flaen.
- Mynychwch Gynhadledd Tywyswyr Arian Wythnos Siarad Arian ar 8 Tachwedd, lle bydd sefydliadau ac unigolion yn rhannu arfer da a gwybodaeth am arweiniad ariannol.
- Trefnwch ddigwyddiad llesiant ariannol i arddangos yr hyn sydd ar gael i drigolion, gan wahodd darparwyr lleol rydych yn gweithio gyda nhw megis undebau credyd i hyrwyddo eu gwasanaethau.
- Defnyddiwch Wythnos Siarad Arian i lansio gwasanaethau newydd.

- Cyfeiriwch at adnoddau arweiniad ariannol megis ein harweiniad ac offer arian bob dydd neu ein hofferyn Credyd Cynhwysol ar gyfer y rhai sy'n symud ymlaen i'r math hwn o fudd-dal.
- Codwch ymwybyddiaeth o beryglon arian cyffredin, megis defnyddio benthycwyr arian didrwydded neu gredyd cost uchel.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Siarad Arian yn y trydydd sector a pholisi

Gyda phobl yn wynebu pwysau cynyddol o ran costau byw, mae cyllid personol ar frig agendâu llunwyr polisi.

Dylid bob amser ystyried siarad am arian wrth ystyried syniadau newydd i gefnogi pobl, gan fod llesiant ariannol yn mynd yn llawer pellach na dim ond eu helpu i wneud penderfyniadau ariannol gwell.

Dechreuwch y sgwrs

- Cynhaliwch ddigwyddiad arweinyddiaeth meddwl bord gron gan ddod â rhanddeiliaid ynghyd i drafod llesiant ariannol.
- Helpwch eich tîm i deimlo'n fwy hyderus wrth siarad â defnyddwyr gwasanaeth am arian trwy ddefnyddio ein hofferyn ac adnoddau Tywyswyr Arian i gefnogi a datblygu sgiliau ar gyfer gweithwyr rheng flaen.
- Defnyddiwch Wythnos Siarad am Arian fel bachyn ar gyfer eich ymchwil neu adroddiadau am wella llesiant cyffredinol.
- Trefnwch rith-drafodaeth i drafod sut y bydd llesiant ariannol yn effeithio ar eich gwaith gyda defnyddwyr, cydweithwyr neu gymunedau.
- Cydnabod y rhan y mae arian yn ei chwarae mewn sawl agwedd ar fywyd – o iechyd meddwl i dai, cyflogadwyedd, symudedd cymdeithasol i berthnasoedd – ac ymunwch â'r sgwrs ar gyfryngau cymdeithasol ynglŷn â pham mae siarad am arian yn bwysig yn yr agendâu sydd o'r pwys mwyaf i chi.



Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Siarad Arian mewn addysg, a gwasanaethau plant, ieuenctid a theuluoedd

Mae dechrau siarad am arian yn gynnar yn helpu i roi'r sgiliau sydd eu hangen i blant a phobl ifanc iddynt adeiladu sylfeini ariannol cryf. Ac eto, dim ond 47% o blant a phobl ifanc 7 i 17 oed sy'n cael addysg ariannol ystyrlon yn y cartref neu'r ysgol ar hyn o bryd.

Addysg ariannol yn yr ysgol

Mae plant a phobl ifanc sy'n dweud eu bod wedi dysgu am arian yn yr ysgol yn fwy tebygol o gynilo'n aml a theimlo'n hyderus i reoli eu harian.

Gall addysg ariannol helpu ysgolion i wella eu cwricwlwm, paratoi myfyrwyr ar gyfer cyfleoedd a chyfrifoldebau diweddarach mewn bywyd a meithrin perthnasoedd â'r gymuned leol.

Lawrlwythwch y Pecyn Cymorth Siarad Arian i Ysgolion gyda gwybodaeth ac adnoddau i helpu lleoliadau addysg i ddarparu addysg ariannol o safon, yn ystod Wythnos Siarad Arian a thu hwnt.

Dechreuwch y sgwrs

- Defnyddiwch ein **harweiniad ar gyfer ysgolion** am gyngor ar sut y gall ysgolion gyflwyno addysg ariannol.
- Dysgwch beth i siarad amdano; mae'r **Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol hyn** yn amlygu'r hyn y gallai fod angen i blant a phobl ifanc ei wybod ar ba oedran.
- Defnyddiwch adnoddau addysg ariannol i'ch arwain, megis y Marc Ansawdd Addysg Ariannol ar **Hyb Adnoddau Arian Ifanc**.
- Gwahoddwch arbenigwyr addysg ariannol i Siarad Arian yn eich ysgol neu leoliad.

- Mae 70% o blant 7-17 oed yn cael arian poced rheolaidd, ond mae ychydig dros hanner y rhieni/ gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus yn siarad â'u plant am arian (MaPS 2023)

- Mae 64% o ddefnyddwyr Prynu Nawr Talu'n Ddiweddarach o dan 40 oed (MaPS, 2022)

- Helpwch rieni a gofalwyr i deimlo'n hyderus **wrth siarad â phlant am arian** trwy rannu ein canllawiau ar siarad am arian gyda gwahanol grwpiau oedran.
- Defnyddiwch eiliadau addysgadwy i helpu i wneud y sgwrs yn berthnasol i fywydau pobl ifanc. Er enghraifft, cael arian pen-blwydd.
- Cyfeiriwch i **Siarad Dysgu Gwneud Digidol**, adnodd ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n helpu i rannu pynciau pwysig yn weithgareddau difyr a gwybodaeth gryno.
- Hyrwyddwch Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ac annog y rhai sydd ag arian sy'n aeddfedu i'w cyrchu a'u rheoli.
- Hyrwyddwch waith y rhai sy'n cynnig arweiniad ariannol yn eich sefydliad, er enghraifft cynghorwyr arian sy'n fyfyrwyr.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

Siarad Arian ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Os ydych yn wynebu problem iechyd, efallai mai cyllid yw'r peth olaf ar eich meddwl. Fodd bynnag, mae cysylltiadau cryf rhwng llesiant ariannol ac iechyd corfforol a meddyliol.

Mae ymchwil yn dangos bod pobl sy'n siarad am arian yn teimlo llai o straen neu orbryder, a mwy o reolaeth.

Gall teimlo'n isel ei gwneud yn anodd rheoli arian. Mae incymau'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl yn llai na'r rhai heb broblemau, ac mae pwysau costau byw wedi amlygu ymhellach sut mae materion ariannol a phroblemau iechyd meddwl yn gydgysylltiedig.

Dechreuwch y sgwrs

- Er mwyn atal pryderon ariannol rhag cronni ochr yn ochr â phryderon iechyd, cynigiwch gymorth i'ch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i siarad am eu sefyllfa ariannol.
- Defnyddiwch yr **Offeryn Arian yn y Meddwl** i arwain y cwestiynau rydych yn eu gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am lesiant ariannol.
- Rhannwch y **Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl ac Arian** gyda'ch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Helpwch eich tîm i deimlo'n fwy hyderus wrth siarad â defnyddwyr cleifion am arian: defnyddiwch ein **Rhaglen Tywyswyr Arian** i gefnogi a datblygu sgiliau ar gyfer gweithwyr rheng flaen.

- Ysgrifennwch erthygl neu crëwch fideo am sut y gall llesiant ariannol a siarad am arian gyfrannu at lesiant cyffredinol.
- Cyfeiriwch y bobl rydych yn eu cyflogi neu'n eu cefnogi i leoedd lle gallant siarad am arian, megis ein **llinellau cymorth arweiniad arian**.
- Canfyddwch a allai'r **cynllun seibiant dyled** Lle i Anadlu helpu'r bobl rydych yn eu cefnogi.
- Dysgwch **sut i gynnwys arweiniad ariannol neu gyngor cyfreithiol ynghylch lles cymdeithasol** o fewn eich cynnig presgripsiynu cymdeithasol.
- Cwblhewch ein **modiwl e-ddysgu cryno** i gael trosolwg o lesiant ariannol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'ch Rheolwr Partneriaethau agosaf am gymorth wedi'i deilwra i ddechrau'ch taith Wythnos Siarad Arian a darganfod sut i gymryd rhan, ble bynnag yr ydych neu beth bynnag yw eich sefydliad.

- Mae 91% o bobl sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl yn osgoi siarad am arian yn aml oherwydd embaras, euogrwydd neu gywilydd (MaPS, 2022)

- Mae'r rhai sydd wedi profi problem iechyd meddwl yn y tair blynedd diwethaf bedair gwaith yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi gyda biliau blaenoriaeth (MaPS, 2022)
- Mae llawer o aelodau o gymunedau lleiafrifol yn wynebu 'stigma dwbl' lle mae'n arbennig o anodd trafod naill ai arian neu lesiant meddyliol, felly gall trafod y ddau gyda'ch gilydd fod yn arbennig o heriol (MaPS 2022)

Sut i gadw'r sgwrs i fynd trwy'r flwyddyn

Mae Wythnos Siarad Arian yn gyfle gwych i ymgysylltu â'ch rhanddeiliaid a'ch cwsmeriaid am lesiant ariannol, ond nid oes angen i'r sgwrs ddod i ben yno.

Er mwyn gwir alluogi pawb yn y DU i wneud y gorau o'u harian a'u pensiynau, mae angen i ni ganolbwyntio'n barhaus ar wella llesiant ariannol unigolion. Felly sut allwch chi helpu?

- Cynhwyswch lesiant ariannol yn eich cynllun cyfathrebu rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol.
- Cysylltwch ag adnoddau **HelpwrArian,** neu'r cymorth rydych yn ei gynnig fel sefydliad.
- Arwweiniwch drwy esiampl i helpu i dorri'r stigma – po fwyaf y mae pobl yn siarad arian, ymwyaf tueddol y bydd eraill i wneud hynny.
- Cynhaliwch ddigwyddiadau rheolaidd, lle gall eich cynulleidfaoedd ofyn cwestiynau, cael cymorth, cael eu cyfeirio at ganllawiau.
- Defnyddiwch ein **Rhaglen Tywyswyr Arian** a Fframwaith Cymhwysedd Arweiniad Ariannol i ddysgu am roi arweiniad ariannol da yn y gofod nad yw'n cael ei reoleiddio gan yr FCA.
- **Ymunwch â Rhwydweithiau Tywyswyr Arian y DU** – ar gyfer grwpiau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr ac ysbrydoliaeth i gefnogi gweithwyr rheng flaen.
- **Cysylltwch â'n tîm partneriaethau** i gael cymorth am ddim i'ch helpu i gynnwys llesiant ariannol yn strategaeth a chyfathrebiadau eich sefydliad.
- Mynychwch Gynhadledd Tywyswyr Arian Wythnos Siarad Arian ar 8 Tachwedd.

Siarad Arian yng Nghynhadledd y Tywyswyr Ariannol 2023

Yn rhad ac am ddim i'w mynychu ac yn agored i bawb, mae'r Gynhadledd Tywyswyr Arian yn gweld pobl sy'n rhoi arweiniad ariannol yn eu rolau o ddydd i ddydd yn dod at ei gilydd i ddysgu, a rhannu gwybodaeth ac arfer da.

Mewn geiriau eraill, i ddysgu sut i gael gwell sgyrsiau am bob agwedd ar arian gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Dan arweiniad siaradwyr gwadd arbenigol, mae'r gynhadledd yn dod â dysgu arweiniad ariannol yn fyw, felly gallwch ei gymhwyso'n hyderus yn eich rôl a rhoi cynnig ar syniadau newydd. Byddwch hefyd yn cwrdd ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg, i ddod o hyd i atebion gyda'ch gilydd.

Cofrestrwch yma i fynychu

Dysgu rhagor am **Dywyswyr Arian**

Cadwch yn gyfredol

Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ar LinkedIn

@MoneyPensionsUK

Derbyniwch ein **cylchlythyr misol**.

Trefnwch gymorth gan reolwr partneriaethau

Cysylltwch â'n Tîm Partneriaethau i'ch helpu i elwa o'n mewnwelediad, gwasanaethau ac offer blaenllaw, yn ogystal â dylunio a datblygu'ch arferion da eich hun y gallwch eu rhannu â'r gymuned fusnes ehangach.

Helpwr Arian

Darparwyd gan Gwasanaeth Arian a Phensiynau